| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mai 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Dyma ail Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac mae'n cynnwys y flwyddyn galendr rhwng Ionawr a Rhagfyr 2015 yn unig. Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn cyflwyno ei adroddiad ar y sail hon yn flynyddol o hyn ymlaen, i'r Cyngor Llawn, er mwyn hysbysu'r Aelodau o dueddiadau; materion o ran cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn gyffredinol ar draws y Sir a gwaith y Pwyllgor o ran codi safonau ymddygiad ar lefel y Sir, ond hefyd ar lefelau Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau y dylai Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar waith y pwyllgor a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, i holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw monitro cydymffurfiad â'r Cod Ymddygiad Aelodau. Mae pob aelod yn ymwybodol bod eu Cod wedi'i seilio ar (a dylid ei darllen ar y cyd â) 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan. Yng Nghymru mae deg egwyddor (mae * wrth ymyl y rhai na chawsant eu cynnwys yn argymhellion Nolan) fel a ganlyn: -

Anhunanoldeb
Gonestrwydd
Uniondeb a phriodoldeb
Dyletswydd i gynnal y gyfraith *
Stiwardiaeth *
Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
Cydraddoldeb a pharch *
Diffuantrwydd
Atebolrwydd
Arweinyddiaeth

Mae gan y Pwyllgor Safonau ddiddordeb arbennig yn yr egwyddor olaf sef 'Arweinyddiaeth', ac yn ystod y flwyddyn mae'n awyddus i archwilio unrhyw fentrau a allai'r Cyngor eu dilyn sy'n cefnogi'r cysyniad o arweinwyr cymunedol; tebyg i'r 'strategaeth arweinyddiaeth' Swyddog a ddatblygwyd ar lefel Sirol. Gall y dull hwn adlewyrchu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chanolbwyntio ar arweinyddiaeth ac arwain drwy esiampl, yn enwedig yn y cyfnod economaidd helbulus hwn lle na ddylid defnyddio adnoddau prin wrth ymchwilio i gwynion heb unrhyw deilyngdod ac sy'n effeithio ar amser y Swyddog Monitro a swyddfa'r Ombwdsmon ei hun.

4.2 Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys y mathau canlynol o Aelodau - 2 Gynghorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod o Gyngor Cymuned (nad yw'n Aelodau sy'n gwisgo dwy het). Felly, nid yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn cael eu hethol, ond yn cael eu recriwtio gan aelodau o'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Safonau yng Nghymru. Hefyd dim ond pan fydd o leiaf hanner yr Aelodau hynny sy'n bresennol yn aelodau annibynnol y gall y Pwyllgor wneud cworwm.
Caiff aelodau annibynnol eu recriwtio trwy hysbyseb gyhoeddus, sy'n agored i bawb heblaw am feini prawf llym mewn perthynas â bod yn gyn-Swyddog neu gyn-Aelod o'r Cyngor o fewn cyfnodau penodol o amser, bod ag enw da a bod â rhinweddau penodol fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth. Ar wahân i hyn, mae'r cyfle hwn yn agored i bobl o bob cefndir, er mwyn cynrychioli barn y cyhoedd o ran y safonau y maent yn ddisgwyl gan eu haelodau etholedig; ac a fydd hefyd wedyn os gofynnir iddynt wneud hynny, yn penderfynu mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriadau at y Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle y torrwyd y Cod Ymddygiad, sy'n uwch na'r trothwy perthnasol. Mae'r penderfyniad i ymchwilio i dorri amod, yn ôl disgresiwn yr Ombwdsmon; yn seiliedig ar y ffeithiau, tystiolaeth a natur y mater ac a oes tystiolaeth ategol ai peidio, ac os oes budd i'r cyhoedd wrth ddefnyddio amser ac adnoddau ariannol y cyhoedd yn yr ymchwiliad a'r gwrandawiad ei hun; yn debyg i ddull Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer cyhuddiadau ac erlyniadau.

Bydd y Pwyllgor sy'n derbyn geirda gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ei ymchwiliad i gŵyn, yn led-farnwrol tra eu bod yn gwrando ar y mater. Mae ganddynt bwerau i atal Aelod o'u swydd am uchafswm o 6 mis, yn ystod y cyfnod hwnnw ni fyddant yn gallu gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel aelod etholedig ac ni fyddant yn derbyn unrhyw gyflog fel aelod. Mae gan y Pwyllgor yr hawl i osod sancsiynau llai megis gwaharddiad rhannol o ddyletswyddau neu 'gerydd cyhoeddus' ac i osod amodau eraill megis presenoldeb mewn hyfforddiant.

Ceir hefyd y dewis lle mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ceisio barn y Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau ar p'un ai yn yr amgylchiadau hynny lle mae'r Ombwdsmon yn penderfynu peidio ag ymchwilio, bod y Swyddog Monitro yn dymuno ymchwilio yn lleol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Swyddog Monitro yn ymgynghori â'r Cadeirydd a/neu'r Pwyllgor a chaiff pob achos ei ystyried yn ôl ei haeddiant.

4.3 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu i'r Pwyllgor gyfarfod bum gwaith ac ni chafodd yr un cyfarfod ei ganslo. Mae'r tabl isod yn nodi crynodeb o'r eitemau dan drafodaeth:-

| **Dyddiad y Cyfarfod** | **Eitemau Adroddiad / Maes** |
|---|---|
| 23/1/15 | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd<br>Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol<br>Adroddiad Blynyddol Drafft y Cadeirydd<br>Prawf Budd y Cyhoedd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru<br>Eitem Sefydlog: trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau |
| 6/3/15 | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd<br>Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol<br>Adroddiad Blynyddol terfynol y Cadeirydd i'w gymeradwyo<br>Cais Cyngor Tref y Rhyl ar gyfer Goddefeb<br>Darpariaeth Hyfforddiant - Clercod a'r Cynghorwyr<br>Eitem Sefydlog: trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau |
| 22/5/15 | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd<br>Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol<br>Adborth gan y Cadeirydd ar ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Canllawiau Cod Ymddygiad Diwygiedig<br>Datgan Buddiannau a Lletygarwch<br>Adborth ar y Digwyddiad Hyfforddi Clercod<br>Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned.<br>Eitem Sefydlog: trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau |
| 18/9/15 | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd<br>Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol<br>Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Taflen Ffeithiau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Ystyried Protocol Hunanreoleiddio drafft ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>Adborth o Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan yng Nghaerdydd.<br>Eitem Sefydlog: Trosolwg o Gwynion yn erbyn |

| | |
|---|---|
| | Aelodau.<br>Hygyrchedd Gwybodaeth i'r Cyhoedd o Gyfarfodydd Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.<br>Eitem Sefydlog: Trosolwg o Gwynion yn erbyn Aelodau. |
| 4/12/15 | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd<br>Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol<br>Ethol Is-gadeirydd<br>Ymgynghoriad Bil OGCC (Cymru)<br>Hygyrchedd Gwybodaeth i'r Cyhoedd o Gyfarfodydd Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.<br>Eitem Sefydlog: Trosolwg o Gwynion yn erbyn Aelodau. |

4.4 Eitemau Sefydlog

Mae'r 3 eitem sefydlog a dderbynnir gan y Pwyllgor yn gweithio'n dda: -

Adroddiadau gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'u presenoldeb a'u harsylwadau yng nghyfarfodydd Pwyllgor a'r Cyngor boed ar lefel Sir neu Gymuned. Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych yn eithaf unigryw yn ei ymagwedd ragweithiol tuag at godi safonau ac ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn bresennol i arsylwi ymddygiad ac effeithiolrwydd cyffredinol y cyfarfodydd; yna bydd yn rhoi adborth i'r Pwyllgor, a all wneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw anghenion hyfforddi neu dueddiadau neu batrymau ymddygiad mewn cymunedau penodol neu ar lefel y Sir. Cyn hyn roedd y mwyafrif o'r ymweliadau hyn yn cael eu dewis ar hap ac yn ymarferion arsylwi rheolaidd; o bryd i'w gilydd mae Cyngor penodol yn cael ei ddewis ar gais y Swyddog Monitro, y mae ei awdurdodaeth mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad yn ymestyn i gynghorau tref, dinas a chymuned.

Eleni, mae'r Pwyllgor wedi cymryd ymagwedd ychydig yn fwy strategol i'w bresenoldeb yn seiliedig ar adborth gan glercod neu aelodau sy'n dymuno ceisio cyrraedd yr holl gynghorau ar draws y Sir mor deg â phosibl, ac os oes angen, cynnig unrhyw gymorth wedi'i dargedu os gofynnir am hynny.

Ar y cyfan, mae'r swyddogaethau fframwaith moesegol cyffredinol ar lefel dda yn y gymuned ac ar lefel sirol; ac adlewyrchir hyn yn y gostyngiad parhaus mewn cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Fel y pwysleisiwyd y llynedd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i'w gwneud yn glir bod eu hymagwedd o ran mynychu yn bersonol mewn cyfarfodydd o safbwynt cefnogaeth ac addysgol; er mwyn targedu adnoddau i wella safonau a hyder y cyhoedd yn y gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud ar lefel gymunedol, ar sail wirfoddol; ac nid o unrhyw ongl gorfodaeth neu gritigol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwerth mae cynghorau a'u haelodau yn ychwanegu at gymunedau lleol. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y Cod yno i roi hyder i'r cyhoedd, ond hefyd i amddiffyn aelodau ac unrhyw ymdrechion i

godi’r ymwybyddiaeth hon ar gyfer yr holl aelodau sy'n gwasanaethu mewn thema allweddol y maent yn ei chymeradwyo'n barhaus.

(a) Trosolwg o Gwynion yn erbyn Aelodau gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn sesiwn gaeedig ac mae aelodau yn cael manylion cyfyngedig mewn perthynas â'r gŵyn ond gyda digon o fanylion i alluogi aelodau i ystyried os gall hyfforddiant neu gamau eraill gael eu hargymell i gynghorau tref, dinas a chymuned penodol sy'n cael problemau neu gynnydd mewn cwynion.

(b) Rhaglen Waith i’r Dyfodol: Mae hyn yn cyd-fynd â dull pwyllgorau eraill y cyngor ac mae’n annog ymagwedd fwy strategol tuag at rôl y Pwyllgor fel un rhagweithiol, nid adweithiol yn unig i gwynion.

4.5 Derbyniodd y Pwyllgor hysbysiad ymddeoliad gan ddau o'i aelodau annibynnol sef y Parchedig Wayne Roberts (Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau) a hefyd Margaret Medley a diolchodd y Pwyllgor iddynt am eu cyfraniadau.

4.6 Aelod annibynnol Paula White wedi ei hethol yn Is-gadeirydd.

4.7 Mae dau aelod annibynnol newydd wedi cael eu recriwtio, Julia Hughes ac Anne Mellor.

4.8 Yn ystod y flwyddyn hon mae'r Cadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru a hefyd Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Mae crynodeb o’r gynhadledd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau sy’n gwbl weithredol a chynrychioliadol sy’n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn cynorthwyo i ategu at weithredu swyddogaethau democrataidd y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

## 7. Pa ymgynghori a wnaed?

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi eu cynnal ac eithrio ymgynghori â’r Pwyllgor Safonau ar y cynnwys.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dim angen.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau a nodwyd.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006.